Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Albany (24 Bridge Street), Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-548-2

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 11

   Ansawdd Profiad y Claf 11

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 16

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 23

4. Y camau nesaf 27

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 28

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 29

Atodiad C – Cynllun gwella 30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany (24 Bridge Street), Casnewydd ar 29 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn dangos ymrwymiad cryf i hybu iechyd, llesiant, gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a chydraddoldeb. Roedd cymorth ar gael i'r cleifion wneud dewisiadau'n seiliedig ar wybodaeth am eu ffordd o fyw drwy amrywiaeth eang o adnoddau hybu iechyd a oedd ar gael yn y clinig ac ar-lein. Roedd gwybodaeth ar gael am fyw'n iach, maeth, rhoi'r gorau i smygu, iechyd y galon, a rheoli pwysau, gan gynnwys arweiniad a deunyddiau cymorth mewn perthynas â thriniaethau colli pwysau. Roedd pob claf yn cytuno bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn ‘dda iawn’.

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a phroffesiynoldeb. Roedd preifatrwydd yn cael ei ddiogelu drwy gyfathrebu'n dawel, defnyddio ystafell ymgynghori breifat a mesurau i leihau'r tebygolrwydd y byddai pobl eraill yn gallu clywed sgyrsiau. Roedd gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i harddangos yn glir.

Roedd prosesau cydsynio cadarn ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth am driniaethau, risgiau, sgil-effeithiau a chanlyniadau disgwyliedig cyn gwneud penderfyniadau. Roedd y gwasanaeth yn asesu hanes meddygol a statws iechyd y cleifion cyn iddynt gael triniaeth ac roedd cymorth cyfieithu ar gael lle bo angen.

Roedd y trefniadau cyfathrebu yn effeithiol ac wedi'u cynllunio i ddiwallu amrywiaeth o anghenion cleifion. Roedd gwybodaeth am opsiynau triniaeth, costau, prosesau adborth a gwasanaethau cymorth ar gael drwy sawl sianel. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cefnogi cleifion Cymraeg ac unigolion yr oedd angen gwasanaethau cyfieithu ar y pryd arnynt.

Roedd gofal yn cael ei ddarparu'n gyflym gan staff â chymwysterau priodol, gydag asesiadau trylwyr, triniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyngor clir ar ôl-ofal. Roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn cael eu hyrwyddo, ac roedd addasiadau rhesymol fel ymgyngoriadau o bell a chyfleusterau hygyrch yn helpu i sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion drwy arolygon ac adolygiadau ar-lein ac roedd yn ymateb iddo ac yn defnyddio'r canfyddiadau i wella gwasanaethau a llywio datblygiadau yn y dyfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gwybodaeth ac adnoddau hybu iechyd cynhwysfawr i gefnogi dewisiadau am ffyrdd iach o fyw a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth
- Darparu gofal parchus sy'n canolbwyntio ar y claf gyda threfniadau cadarn i ddiogelu preifatrwydd, urddas a chydsyniad ar sail gwybodaeth
- Hyrwyddo cydraddoldeb a hygyrchedd drwy addasiadau rhesymol, gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chymorth iaith Gymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Canolfan Feddygol Albany yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân a diogel a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch cadarn ar waith, a gefnogwyd gan bolisïau cynhwysfawr, asesiadau risg, gweithdrefnau diogelwch tân, cynlluniau ar gyfer argyfwng a thystiolaeth o waith monitro parhaus. Roedd y safle yn bodloni gofynion diogelwch perthnasol, gan gynnwys profion trydanol, asesiadau risg tân a mesurau diogelwch priodol.

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau cadarn i'w gweld ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd strwythurau llywodraethu clir, amserlenni glanhau rheolaidd, hyfforddiant staff, trefniadau monitro amgylcheddol a gweithdrefnau rheoli gwastraff yn helpu i sicrhau amgylchedd clinigol diogel. Ni nodwyd unrhyw bryderon o ran atal a rheoli heintiau yn ystod yr arolygiad.

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn effeithiol ar y cyfan, gyda meddyginiaethau rheoli pwysau cymeradwy yn cael eu storio a'u monitro'n briodol. Roedd alergeddau a sensitifrwydd cleifion wedi'u cofnodi'n glir ac roedd meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu yn dilyn asesiadau trylwyr. Er mai cofnodion cleifion papur oedd yn cael eu defnyddio o hyd, roedd y gwasanaeth yn ystyried system gwmwl ddiogel.

Dangosodd y gwasanaeth fod ganddo drefniadau diogelu effeithiol, gyda pholisïau cyfredol, staff hyfforddedig, arweinydd diogelu dynodedig a llwybrau adrodd clir. Roedd cyfarpar meddygol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i galibradu'n briodol ac roedd yn addas at y diben.

Roedd y cleifion yn cael gofal gan glinigydd arbenigol profiadol sy'n arbenigo mewn rheoli pwysau. Roedd asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal cyn presgripsiynu triniaeth, gan gynnwys profion sgrinio ar gyfer gwrtharwyddion a phrosesau monitro parhaus drwy adolygiadau rheolaidd. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am opsiynau triniaeth, risgiau, sgil-effeithiau, costau ac ôl-ofal, a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Roedd prosesau gwella ansawdd ar waith yn y gwasanaeth drwy archwiliadau, arolygon cleifion, adroddiadau blynyddol a mentrau datblygu gwasanaethau. Roedd cofnodion yn cael eu rheoli i safon uchel ar y cyfan, a gwelwyd bod cofnodion y cleifion yn gywir, yn drefnus, yn gyfoes, ac yn cael eu cefnogi gan drywydd archwilio clir.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Newid o gofnodion cleifion papur i system ddigidol ddiogel er mwyn lleihau'r risg o golli cofnodion a rheoli gwybodaeth yn well.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal amgylchedd diogel a glân a gefnogir gan drefniadau iechyd a diogelwch, diogelwch tân, diogelu a rheoli risg cynhwysfawr
- Dangos trefniadau cryf ar gyfer atal a rheoli heintiau, gan gynnwys hyfforddiant staff, prosesau monitro amgylcheddol, archwiliadau a phrosesau glanhau effeithiol
- Darparu gofal rheoli pwysau clinigol effeithiol a diogel drwy asesiadau cleifion trylwyr, trefniadau monitro rheolaidd, arweinyddiaeth glinigol arbenigol a gwybodaeth fanwl am gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith, a gefnogwyd gan arweinyddiaeth effeithiol, systemau rheoli a pholisïau a oedd yn hyrwyddo gofal diogel o ansawdd uchel. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, a oedd yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion. Roedd y canllaw i gleifion yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC a chrynodeb o adborth gan gleifion. Roedd y dogfennau hyn hefyd ar gael ar wefan y clinig.

Roedd gan y gwasanaeth gyfres gynhwysfawr a chyfredol o bolisïau a gweithdrefnau, gyda phrosesau clir ar gyfer adolygu a chyfathrebu â staff. Roedd systemau effeithiol ar waith i reoli gwybodaeth am ddiogelwch, gan gynnwys rhybuddion gan Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Roedd gofynion rheoliadol yn cael eu bodloni, gyda manylion cofrestru cywir a dogfennau yswiriant priodol ar gael.

Roedd trefniadau cadarn ar waith i ymdrin â chwynion a phryderon. Gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth am gwyno mewn fformatau gwahanol ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i gofnodi cwynion ac ymchwilio ac ymateb iddynt o fewn amserlenni sefydledig. Nid oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y 12 mis blaenorol.

Roedd gan y gwasanaeth arferion recriwtio a chyflogi trylwyr, gyda gwiriadau cyn cyflogi priodol, ymarferion sgrinio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon a gwiriadau o gofrestriadau proffesiynol. Roedd y cofnodion hyfforddiant ac arfarnu staff yn gyfredol. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd cyfle i fonitro'r gweithlu yn well drwy gyfrwng hunan-ddatganiadau blynyddol gan y staff ynghylch eu haddasrwydd parhaus a statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno hunan-ddatganiadau blynyddol gan y staff i gadarnhau nad yw statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na'u haddasrwydd i weithio wedi newid.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Systemau rheoli diogelwch, polisi a llywodraethu cynhwysfawr a chyfredol.
- Proses gadarn ar gyfer cwynion a phryderon gyda gweithdrefnau ac amseroedd

ymateb clir.

- Arferion recriwtio cadarn, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon, a gwiriadau o gofrestriadau proffesiynol

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion ar y gofal yn y clinig ar gyfer yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2026. Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion gan gleifion yn y clinig hwn. Roedd pob claf yn cytuno bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn'. Nododd y cleifion:

> *"Mae'r staff yn ddymunol ac yn gyfeillgar iawn, rwy' bob amser yn cael croeso ac ychydig o hwyl pan fyddaf yn dod i'r clinig, ac maen nhw bob amser yn broffesiynol."*
>
> *"Mae'n wych cael yr help. "Mae'n drueni nad yw'n rhatach ond mae angen help y staff a'r meddygon arnaf."*
>
> *"Gallai meddygfeydd a phractisau'r GIG ddysgu o'r ganolfan hon ynghylch sut i werthfawrogi cleifion."*

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn helpu'r cleifion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu hiechyd a'u llesiant. Roedd amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa, a oedd yn ymdrin â phynciau fel byw'n iach, maeth cytbwys, rhoi'r gorau i smygu a chyngor deietegol. Roedd y cleifion hefyd yn cael eu cyfeirio at adnoddau ar-lein yn ymwneud â meddyginiaethau rheoli pwysau sy'n cael eu presgripsiynu, a oedd yn rhoi arweiniad ar newidiadau ffordd o fyw iach, tracio deiet a monitro pwysau a gollir.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd cynhwysfawr ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau i gleifion ar ddechrau triniaeth gyda meddyginiaethau colli pwysau, yn ogystal ag adnoddau cymorth digidol a luniwyd i helpu cleifion drwy gydol eu taith rheoli pwysau. Roedd y deunyddiau addysgol eraill yn cynnwys canllawiau Bwyta'n Well i Leihau Eich Risg o Glefyd y Galon a Chylchrediad y Gwaed gan y British Heart Foundation a Chanllaw Cyngor Deietegol Canolfan Feddygol Albany.

Roedd gwefan y clinig yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau hybu iechyd hefyd, gan gynnwys gwybodaeth am egwyddorion colli pwysau mewn ffordd iach, canllaw

ymarferol ar fwyta allan, samplau o gynlluniau bwyd a gwybodaeth fanwl am feddyginiaethau colli pwysau.

Urddas a pharch

Gwelwyd y staff yn trin y cleifion â pharch, caredigrwydd a phroffesiynoldeb bob amser. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r cleifion a oedd yn dod i'r gwasanaeth mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar. Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu parchu, gyda'r staff yn cyfathrebu mewn ffordd dawel a sensitif.

Er mai derbynfa cynllun agored oedd gan y gwasanaeth, roedd cerddoriaeth gefndir yn chwarae er mwyn helpu i gadw cyfrinachedd a lleihau'r risg y byddai pobl eraill yn gallu clywed sgyrsiau. Roedd pob ymgynghoriad a thriniaeth yn cael eu cynnal mewn ystafell breifat y tu ôl i ddrysau caeedig. Roedd gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i harddangos yn glir y tu allan i'r ystafell drin.

Yn yr holiadur i gleifion, roedd pob ymatebydd yn cytuno'n gryf bod y staff yn ei drin ag urddas a pharch ac yn diogelu ei breifatrwydd. Dywedodd y cleifion fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud, yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd, yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd y cleifion yn cael y wybodaeth gywir pan oedd ei hangen arnynt, mewn ffordd y gallent ei deall yn hawdd er mwyn eu helpu i wneud y dewis gorau.

Roedd y polisi cydsynio yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i gael cydsyniad dilys. Roedd y polisi yn dweud bod yn rhaid i gydsyniad gael ei roi yn wirfoddol, heb ddod o dan bwysau na dylanwad diangen, gan unigolyn oedd yn meddu ar alluedd a gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Clywsom fod y cleifion yn cael gwybodaeth am driniaethau arfaethedig, gan gynnwys sgil-effeithiau posibl, risgiau a chanlyniadau disgwyliedig. Dywedodd y meddyg ei fod yn trafod effeithiolrwydd a sgil-effeithiau meddyginiaethau'n fanwl, yn enwedig mewn perthynas ag adolygiadau o driniaethau ar ôl tri mis. Roedd gofyn i'r cleifion lofnodi ffurflen gydsynio, a oedd yn cael ei chadw yn eu cofnodion i ddangos eu bod wedi rhoi cydsyniad ar bapur.

Roedd y gwasanaeth yn cynnal profion sgrinio yn ystod ymgyngoriadau ac yn adolygu hanes meddygol a statws iechyd presennol y cleifion cyn dechrau triniaeth. Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill os oedd y cleifion wedi cydsynio i hynny. Mewn achosion lle roedd y cleifion yn gwrthod rhoi cydsyniad, dywedodd y gwasanaethau y byddai trefniadau monitro manylach yn cael eu rhoi ar waith. Roedd y canllaw i gleifion yn dweud y dylai cleifion a hoffai gael ymgynghoriad gyda chymorth cyfieithydd neu gleifion yr oedd angen dogfennau arnynt mewn iaith arall, gysylltu â'r dderbynfa i drefnu cyfieithydd.

Cadarnhaodd pob claf a oedd wedi cael triniaeth fod y gwasanaeth wedi gofyn am gydsyniad cyn dechrau triniaeth newydd a'i fod wedi cael digon o wybodaeth am opsiynau triniaeth, risgiau a manteision.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir, gywir a hygyrch a oedd yn eu helpu i ddeall ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth. Roedd polisi cyfredol ar asesu, rhoi diagnosis a thrin cleifion yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion.

Roedd gwybodaeth am y ffordd y gallai cleifion roi adborth neu wneud cwyn wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gwybod sut i gyflwyno sylwadau, pryderon neu gwynion.

Roedd anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried hefyd. Roedd arwydd yn y dderbynfa i hysbysu'r cleifion bod cymorth iaith Gymraeg ar gael. Roedd y gwasanaeth wedi cofrestru â gwasanaeth cyfieithu ar y pryd hefyd er mwyn helpu cleifion yr oedd angen cymorth cyfathrebu arnynt.

Clywsom fod y clinigydd yn hysbysu'r cleifion ar ôl eu hymgynghoriad am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael, y triniaethau a argymhellir ac unrhyw gyfarwyddiadau angenrheidiol i'w dilyn ar ôl y driniaeth Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau ar gael wrth ddesg y dderbynfa, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion ddeall unrhyw gostau cyn symud ymlaen â thriniaeth. I gleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol, roedd gwybodaeth a gwasanaethau trefnu apwyntiadau ar gael dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, gan sicrhau bod gofal ar gael yn gyfartal i bawb.

Dywedodd pob claf yn yr holiadur fod y costau wedi cael eu hesbonio cyn y driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael gofal amserol gan staff â chymwysterau priodol. Dim ond cleifion ag apwyntiadau roedd y gwasanaeth yn eu gweld ac yn ystod yr arolygiad, cafodd y cleifion eu gweld yn brydlon. Byddai'r dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw amseroedd aros a'r rhesymau dros oedi cyn gweld y clinigydd. Os na fyddai modd i'r cleifion aros, byddai'r apwyntiadau'n cael eu haildrefnu.

Roedd anghenion iechyd a llesiant y cleifion yn cael eu hasesu yn ystod ymgynghoriad â'r clinigydd. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddyg arbenigol a oedd yn dilyn prosesau ailddilysu proffesiynol, a oedd yn ei helpu i ddarparu gofal yn seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag arfer gorau cyfredol.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am eu cynlluniau gofal a thriniaeth drwy drafodaethau llafar, gwybodaeth ysgrifenedig a thaflenni gwybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth cyn triniaeth a chyngor cyn triniaeth neu ôl-ofal mewn perthynas â meddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu darparu hefyd i gefnogi dealltwriaeth y cleifion a gofal parhaus.

Roedd trefniadau ar waith i reoli cymhlethdodau. Cynghorwyd cleifion i gysylltu â'u meddyg teulu neu fynd i'r ysbyty lle bo hynny'n briodol, yn enwedig pe byddai unrhyw gymhlethdodau'n codi. Lle bo angen atgyfeirio cleifion ymhellach neu gynnal ymchwiliadau pellach, roedd y cleifion yn cael cyngor ysgrifenedig a'u cynghori i gysylltu â'u meddyg teulu. Roedd gwybodaeth yn cael ei haddasu i anghenion y cleifion ac roedd y gwasanaeth yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn rhoi triniaeth.

Roedd pob claf yn yr holiadur wedi cytuno ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol ac arweiniad clir ynghylch heintiau neu bryderon brys.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol cyfredol ar gael. Roedd y polisi yn dweud y dylai pob aelod o staff, claf ac ymwelydd allu cael gwasanaethau mewn amgylchedd heb wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth a bwlio. Roedd hefyd yn

rhoi pwyslais ar fynediad cyfartal at wasanaethau o ansawdd uchel i bawb.

Roedd addasiadau rhesymol wedi'u hystyried i gefnogi mynediad teg at ofal. Roedd ymgyngoriadau o bell ar gael i gleifion na allaent fynd i'r clinig eu hunain ac roedd ramp ar gael i wella hygyrchedd i unigolion ag anghenion symudedd.

Dangosodd y darparwr ei fod yn deall hawliau cleifion trawsryweddol ac roedd yn ymrwymedig i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin mewn ffordd deg a pharchus, ni waeth beth fo'i hunaniaeth rhywedd neu unrhyw nodwedd warchodedig arall.

Yn yr holiadur, dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth neu ei ddefnyddio ac roedd pob un ohonynt yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan y cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth. Roedd canlyniadau'r arolwg cleifion a gynhaliwyd yn 2025 wedi'u harddangos yn y dderbynfa, a oedd yn dangos tryloywder ac yn annog cleifion i ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys adborth ar feysydd fel effeithlonrwydd y dderbynfa, y broses gofrestru wrth gyrraedd ar gyfer apwyntiad, ansawdd triniaethau meddygol, cwrteisi'r staff, sut roedd sgil-effeithiau posibl yn cael eu hegluro a bodlonrwydd cyffredinol.

Yn ogystal ag arolygon ffurfiol, roedd y gwasanaeth yn monitro adolygiadau gan gleifion a oedd yn dod i law drwy ei system trefnu apwyntiadau, ac roedd adborth cadarnhaol yn cael ei gofnodi a'i adolygu. Roedd adborth gan gleifion wedi arwain at welliannau i wasanaethau, fel ystyried cynnig amseroedd apwyntiad mwy hyblyg. Er nad oedd y clinig yn gallu ymestyn ei oriau yn y lleoliad hwn, roedd clinigau gyda'r hwyr ar gael ar safle'r darparwr ym Mhontypridd. Roedd y darparwr hefyd yn datblygu ei wefan i gyflwyno cardiau cofnodion meddygol digidol, a fyddai'n galluogi cleifion i gwblhau gwybodaeth cyn apwyntiadau a monitro faint o bwysau roeddent yn ei golli ar-lein.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle'n ddiogel, yn lân ac yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd. Roedd mynediad i'r clinig yn cael ei reoli drwy system intercom ac roedd y safle ar glo pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, a oedd yn helpu i atal mynediad heb awdurdod.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr amgylchedd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau mewn cyflwr da, ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg, fel annibendod neu risgiau baglu. Roedd y clinig wedi'i ddiogelu'n briodol gan ddrysau a ffenestri y gellir eu cloi.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gofynion diogelwch trydanol yn cael eu bodloni gan gadarnhau bod y systemau a'r cyfarpar trydanol wedi cael eu profi a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiad risg tân cyfredol, a gwblhawyd ym mis Hydref 2025, ar gael, ynghyd â thystiolaeth o wiriadau diogelwch tân blynyddol. Roedd cyfarpar diffodd tân yn cael ei gynnal a'i gadw o dan drefniant priodol â'r landlord ac roedd diffoddwyr tân ar gael y tu allan i'r clinig. Roedd ymarfer tân wedi'i gynnal yn ddiweddar, gyda'r staff yn cael cyfarwyddyd i ymgynnull mewn man cyfarfod dynodedig. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân, roedd arwyddion clir i ddangos yr allanfeydd tân, roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos ac roedd llwybr dianc digonol ar gael drwy'r brif fynedfa.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn yr holiadur o'r farn bod hygyrchedd yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd darparwr y gwasanaeth wedi rhoi mesurau priodol ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch. Roedd Polisi Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risg cynhwysfawr a chyfredol ar waith.

Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle cyfredol ac addas wedi'i gwblhau, ac roedd tystiolaeth ategol ar gael. Roedd trefniadau priodol ar waith i ymateb i

argyfyngau'n ymwneud â chleifion, ynghyd â pholisi uwchgyfeirio cyfredol a Chynllun Parhad Busnes, ac roedd manylion cyswllt allweddol ar gael yn hawdd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r cleifion rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau effeithiol. Y Cyfarwyddwr Clinigol oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod mesurau rheoli heintiau yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd, ac roedd goruchwyliaeth o ddydd i ddydd wedi'i dirprwyo i'r rheolwr cofrestredig.

Roedd cyfrifoldebau'r staff wedi'u diffinio'n glir yn y polisi atal a rheoli heintiau, a oedd yn atgyfnerthu atebolrwydd ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'r polisi cyfredol hwn, a oedd yn gymwys i bob agwedd ar lendid a rheoli heintiau ar y safle. Nod y polisi oedd cynnal safonau uchel o lendid, arferion cadw tŷ effeithiol, atebolrwydd ac atal heintiau. Roedd gofyn i'r staff gymryd rhagofalon rheoli heintiau safonol, gan gynnwys hylendid dwylo effeithiol, rheoli a gwaredu offer miniog yn ddiogel, dihalogi cyfarpar yn gywir a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel.

Gwelwyd amserlenni glanhau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys cofnodion glanhau wythnosol a thaflenni ticio wedi'u cwblhau, a oedd yn rhoi tystiolaeth bod gweithgareddau glanhau rheolaidd yn cael eu cyflawni a'u monitro. Roedd yr amgylchedd yn lân yr olwg, nid oedd unrhyw annibendod ac roedd yn cael ei gadw mewn cyflwr a oedd yn helpu i reoli heintiau'n effeithiol. Roedd yn ymddangos bod y gosodiadau, y ffitiadau a'r ardaloedd clinigol yn addas at ddibenion glanhau a dihalogi.

Roedd trefniadau rheoli gwastraff priodol ar waith.

Roedd y gwasanaeth yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau a gweithgareddau monitro. Roedd y prosesau hyn yn rhoi sicrwydd bod safonau rheoli heintiau yn cael eu cynnal ac y gallai unrhyw faterion gael eu nodi a'u trin yn gyflym. Ni nodwyd unrhyw bryderon cyfredol o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol, cyfleusterau golchi dwylo a chyfleusterau diheintio priodol ar gael i'r staff ac roedd y staff yn cael eu cefnogi i gynnal arferion hylendid dwylo effeithiol.

Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, y prosesau dihalogi a'r trefniadau glanhau yn cael eu hategu gan bolisïau cyfredol a gwaith monitro parhaus. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau sy'n briodol i'w rolau, er mwyn sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Nodwyd bod y safonau glendid yn cael eu hystyried yn uchel iawn yn yr holiadur i gleifion a dywedodd pob ymatebydd fod y clinig yn lân iawn. Yn ogystal, er bod 82% o'r cleifion wedi nodi bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oeddent wedi sylwi neu nad oeddent yn gwybod.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau addas ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer presgripsiynu, cyflenwi, storio a rheoli meddyginiaethau. Dim ond meddyginiaethau rheoli pwysau roedd y clinig yn eu presgripsiynu, ac roeddent yn cael eu cyflenwi i'r cleifion eu cymryd oddi ar y safle. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn cynnwys manylion am alergeddau a sensitifrwydd i gyffuriau, a oedd wedi'u dogfennu'n glir.

Ar adeg yr arolygiad, roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur. Er bod cofnodion ar gael, gallai systemau papur beri risg y byddai cofnodion yn cael eu colli. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn ystyried system gwmwl ddiogel wedi'i hamgryptio ac y byddai'r cofnodion papur presennol yn cael eu sganio a'u trosglwyddo i'r system newydd pan fyddai'n weithredol.

Dim ond meddyginiaethau colli pwysau cymeradwy a oedd yn cael eu presgripsiynu ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Roedd tystiolaeth i ddangos bod tymheredd yr ystafell storio a'r oergell meddyginiaethau'n cael ei fonitro'n rheolaidd ac roedd gweithdrefn i'w dilyn pe nodwyd bod y tymheredd y tu allan i'r amrediad tymheredd gofynnol. Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol yn cefnogi prosesau rheoli meddyginiaethau, gan helpu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu, eu cyflenwi a'u monitro'n ddiogel.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd systemau diogelu effeithiol ar waith yn y gwasanaeth er mwyn helpu i nodi pryderon diogelu, adrodd arnynt a'u rheoli, gan helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu

diogelu rhag risg o gamdriniaeth a niwed. Roedd polisïau diogelu a chwythu'r chwiban cyfredol ar gael ac roeddent yn gyson â deddfwriaeth genedlaethol a gweithdrefnau lleol ac yn cydnabod canllawiau diogelu. Roedd y polisi diogelu yn rhoi gwybodaeth glir i'r staff am adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth, ymateb i bryderon, a chael gafael ar weithdrefnau diogelu perthnasol.

Roedd arweinydd diogelu penodol wedi'i enwi yn y polisi, ac roedd unigolion cyswllt dynodedig ar gael ar gyfer diogelu, gan gynnwys trefniadau dirprwyo pan fo angen. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol a chyfeiriadau at adnoddau diogelu cenedlaethol er mwyn helpu'r staff i wneud atgyfeiriadau a chael cyngor.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn amlinellu'r ffordd y byddai cyfrinachedd yn cael ei gynnal a sut y byddai ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal i bryderon.

Roedd yn rhaid i gleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth fod yn 18 oed neu'n hŷn. Ni chaniateir plant ar y safle oni bai bod oedolyn gyda nhw i'w goruchwylio bob amser.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol, ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig gyfarpar a dyfeisiau meddygol priodol i ddiwallu anghenion y cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw a goruchwylio'r cyfarpar. Roedd cyfarpar clinigol, gan gynnwys cyfarpar mesur pwysedd gwaed, cyfarpar mesur taldra a chloriannau digidol, ar gael ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Gwelwyd tystysgrifau gwasanaethu, profi a chalibradu perthnasol a oedd yn cadarnhau bod y cyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn addas at y diben. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dyfeisiau cywir a dibynadwy.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddyg â chryn arbenigedd yn y maes, gan gynnwys gyrfa hir fel meddyg ymgynghorol yn y GIG. Roedd hyn yn rhoi tawelwch meddwl bod y cleifion yn cael gofal gan glinigydd â chymwysterau a phrofiad addas a gwybodaeth arbenigol am anhwylderau pwysau ac anghenion maeth cysylltiedig.

Roedd trefniadau diogelu priodol ar waith i sicrhau bod y meddyginiaethau colli pwysau yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel. Roedd y cleifion yn cael eu hasesu a'u monitro i nodi unrhyw wrtharwyddion i driniaeth, gan gynnwys anhwylderau bwyta neu gyflyrau seicolegol a allai olygu eu bod yn wynebu risg. Roeddent yn cael eu monitro'n rheolaidd gan ddefnyddio mesurau cydnabyddedig, gan gynnwys asesiadau BMI, i werthuso effeithiolrwydd y driniaeth a'u llesiant.

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi drwy gydol eu taith rheoli pwysau drwy adolygiadau a drefnwyd bob pedair wythnos, a byddai cynnydd, effeithiolrwydd y feddyginiaeth, sgil-effeithiau, atal archwaeth a mesurau ffordd o fyw iach yn cael eu trafod. Gallai'r cleifion gael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth rhwng apwyntiadau hefyd lle bo angen.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau a oedd ar gael ar ffurf taflenni, llyfrynnau ac adnoddau ar-lein. Roedd gwybodaeth glir am gostau triniaethau wedi'i harddangos yn y clinig. Roedd meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi yn ystod ymgyngoriadau wyneb yn wyneb, ac roedd penderfyniadau presgripsiynu yn cael eu gwneud ar sail hanes meddygol y claf, gan gynnwys gwybodaeth a gyrchwyd drwy systemau GIG Cymru. Roedd archwiliadau'n cadarnhau mai dim ond meddyginiaethau rheoli pwysau cymeradwy oedd yn cael eu presgripsiynu. Roedd y cleifion hefyd yn cael cyngor ar sut i waredu'n ddiogel yr offer miniog a'r meddyginiaethau nad oeddent wedi cael eu defnyddio, gan helpu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n ddiogel.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y darparwr brosesau effeithiol ar waith i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Roedd archwiliadau atal a rheoli heintiau ac arolygon cleifion rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda'r adborth yn dangos bod y cleifion yn cael

profiadau cadarnhaol. Nodwyd hefyd fod teclyn mesur pwysedd gwaed heb gyswllt yn y dderbynfa yr oedd cleifion yn ei ddefnyddio i gofnodi eu pwysedd gwaed cyn gweld y clinigydd.

Roedd y gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth yn cynnwys cyflwyno opsiynau triniaeth ychwanegol, cynnig therapïau ar ffurf tabledi a phigiadau i'r cleifion, ynghyd â gwybodaeth am y meddyginiaethau sydd ar gael.

Roedd datganiad blynyddol wedi cael ei gwblhau ym mis Hydref 2025 fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau perthnasol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy, a byddai pryderon yn cael eu huwchgyfeirio at y rheolwr cofrestredig, a fyddai'n hysbysu AGIC fel sy'n ofynnol.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd data a gwybodaeth am gleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel drwy system cofnodion papur. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio dan glo mewn cypyrddau ffeilio er mwyn cynnal cyfrinachedd ac atal mynediad heb awdurdod.

Rheoli cofnodion

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y cleifion yn cael gofal diogel, sy'n glinigol briodol ac sy'n cael ei fonitro'n dda. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, ac roeddent yn glir, yn gywir ac yn hawdd eu dilyn. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol pum claf, a nodwyd eu bod yn ddarllenadwy, yn drefnus ac yn cynnwys manylion priodol am asesiadau, y driniaeth a ddarparwyd, y meddyginiaethau a bresgripsiynwyd a chanfyddiadau clinigol. Roedd y cofnodion yn dangos bod cydsyniad dilys wedi cael ei roi a'i gofnodi. Roedd cofnodion wedi'u llofnodi a'u dyddio, gan ddarparu trywydd archwilio clir ar gyfer ymgyngoriadau, y penderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio templed safonol ar gyfer ymgyngoriadau, a oedd yn helpu i sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu cadw a bod cyflyrau meddygol arwyddocaol, meddyginiaethau presennol, penderfyniadau am driniaethau a gwaith monitro parhaus yn cael eu cofnodi'n briodol. Roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau yn y fan a'r lle ac roeddent yn adlewyrchu anghenion, risgiau a chynlluniau triniaeth unigol y cleifion. Roedd asesiadau risg perthnasol yn cael eu cynnal yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf, gyda risgiau a nodwyd a chamau gweithredu dilynol wedi'u cofnodi'n glir. Roedd

y rheswm dros roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn, ynghyd â'r rhesymau dros ddod â thriniaeth i ben, wedi'u cofnodi hefyd.

Roedd y cleifion yn cael asesiad addasrwydd cyn dechrau triniaeth. Lle roedd y gwasanaeth yn ystyried bod triniaeth yn amhriodol neu lle roedd gwrtharwyddion, roedd y cleifion yn cael gwybod am hynny ac yn cael eu cynghori i ofyn am gymorth gan eu meddyg teulu neu wasanaethau gofal iechyd priodol eraill. Clywsom na fyddai disgwyl i'r cleifion dalu nes bod asesiad clinigol wedi cadarnhau eu bod yn addas i gael triniaeth.

Roedd cyngor a chymorth ar gael i'r cleifion rhwng apwyntiadau hefyd ac roeddent yn cael gwybodaeth am sgil-effeithiau arwyddocaol, gan gynnwys arwyddion a symptomau pancreatitis a'r camau i'w cymryd pe byddai'r rhain yn codi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Dangosodd canfyddiadau'r arolygiad fod y clinig, ar y cyfan, yn cael ei lywodraethu'n dda, ei reoli'n briodol a'i gefnogi gan systemau, polisïau a threfniadau arwain effeithiol a oedd yn helpu i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel.

Roedd y gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion yn y dderbynfa. Roedd canllaw cyfredol i gleifion ar gael ar y safle a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC a chrynodeb o adborth gan gleifion. Roedd y dogfennau hyn hefyd ar gael ar wefan y clinig.

Roedd cyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd yr holl ddogfennau a welsom yn gyfredol. Roedd proses glir ar waith ar gyfer adolygu, diweddaru a chymeradwyo polisïau cyn eu rhoi ar waith. Roedd y staff yn cael gwybod am bolisïau newydd neu ddiwygiedig drwy negeseuon e-bost neu drafodaethau uniongyrchol, er mwyn helpu i sicrhau eu bod bob amser yn ymwybodol o'r canllawiau a'r disgwyliadau cyfredol.

Dangosodd y gwasanaeth brosesau effeithiol ar gyfer rheoli gwybodaeth am ddiogelwch. Roedd rhybuddion ynghylch cyffuriau a diogelwch, gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Llywodraeth Cymru, yn cael eu hadolygu gan y rheolwyr a'u rhannu â'r staff lle bo hynny'n berthnasol i gefnogi ymarfer diogel.

Roedd tystysgrif cofrestru ac atodlen AGIC wedi'u harddangos mewn man amlwg, a gwelwyd bod y manylion cofrestru'n gywir a bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i amodau cofrestru. Roedd tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd ar gael.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd trefniadau cynhwysfawr a phenodol ar waith i reoli pryderon a chwynion, gan sicrhau y gallai'r cleifion godi materion a chael ymateb priodol ac amserol. Roedd gwybodaeth am y weithdrefn gwyno ar gael i'r cleifion ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa ac yn y datganiad o ddiben. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd ar gael yn ddigidol, a oedd

yn golygu y gellid ei haddasu i ddiwallu anghenion cyfathrebu unigol, fel cynyddu maint y ffont.

Roedd y polisi cwynion yn amlinellu gweithdrefnau clir ar gyfer derbyn cwynion, eu cofnodi ac ymchwilio ac ymateb iddynt. Roedd y polisi yn gymwys i gwynion yn erbyn y clinig neu unrhyw aelod o'r staff ac roedd yn cwmpasu pryderon clinigol ac anghlinigol. Gallai cleifion wneud cwyn ar lafar neu'n ysgrifenedig neu gallai ymwelydd, perthynas neu gynrychiolydd awdurdodedig wneud cwyn ar eu rhan gyda chydsyniad. Gellid atgyfeirio cleifion at AGIC hefyd pan fo hynny'n briodol. Nid oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y 12 mis blaenorol.

Roedd gan y gwasanaeth amserlenni sefydledig ar gyfer ymdrin â chwynion. Byddai pob cwyn yn cael ei chofnodi mewn log cwynion a'i chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith. Fel arfer, byddai ymateb llawn, gan gynnwys esboniad a, lle bo hynny'n briodol, ymddiheuriad llawn, yn cael eu darparu o fewn 20 diwrnod gwaith. Pe byddai oedi, byddai achwynwyr yn cael gwybod am y rhesymau. Roedd y polisi hefyd yn pwysleisio ei bod yn bwysig dysgu gwersi a gwneud gwelliannau er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto. Roedd cofnodion o gwynion, ymchwiliadau, canlyniadau a chamau a gymerwyd yn cael eu cadw yn unol â gofynion diogelu data. Roedd y staff yn gwybod sut i fynegi pryderon drwy'r prosesau cwyno a chwythu'r chwiban ac roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar gael.

Roedd gwybodaeth am adborth gan gleifion wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a'i harddangos yn y dderbynfa.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd prosesau recriwtio a chyflogi priodol ar waith i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cleifion. Roedd gweithdrefn recriwtio ffurfiol ar gael, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer hysbysebu swyddi gwag, cyfweld ag ymgeiswyr, cael geirdaon a chynnig swyddi. Roedd y cofnodion recriwtio a welsom yn cynnwys y dogfennau angenrheidiol.

Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal cyn i staff ddechrau gweithio yn y clinig. Roedd y polisi yn nodi bod yn rhaid cael dau eirda boddhaol sydd wedi'u dilysu ar gyfer pob penodiad ac roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer rolau a oedd yn cynnwys cyswllt rheolaidd heb oruchwyliaeth â chleifion. Roedd dogfennau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael i'w gweld. Roedd yn ofynnol hefyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnal eu cofrestriad â'u corff

rheoleiddio perthnasol a gwelwyd tystiolaeth o ddogfennau cofrestru ac arfarnu cyfredol, gan gynnwys dilysiadau drwy gofrestr y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Clywsom ei bod yn ofynnol i'r staff hysbysu'r gwasanaeth am unrhyw rybuddion gan yr heddlu, euogfarnau, neu amgylchiadau eraill a allai effeithio ar eu rôl broffesiynol. Roedd cofnodion hyfforddiant a dogfennau arfarnu'n cael eu cadw ac roeddent yn gyfredol. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd y byddai prosesau hunan-ddatgan blynyddol ynghylch addasrwydd parhaus y staff a statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ymhellach.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hunan-ddatganiad blynyddol i gadarnhau nad oes unrhyw rybuddion gan yr heddlu, euogfarnau neu amgylchiadau eraill a allai effeithio ar statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd lefelau staffio, trefniadau hyfforddiant, prosesau goruchwylio a mecanweithiau cefnogi staff yn effeithiol wrth alluogi'r staff i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel i'r cleifion.

Dim ond pan fyddai clinigydd yn bresennol y byddai ymgynghoriad yn cael ei drefnu gyda chlaf. Roedd yr apwyntiadau yn caniatáu digon o amser i'r clinigydd siarad â'r claf ac ymdrin ag unrhyw bryderon. Roedd cleifion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd bob pedair wythnos er mwyn cefnogi prosesau monitro parhaus a'u triniaeth.

Roedd rhaglen sefydlu strwythuredig ar waith ar gyfer staff newydd. Roedd y rhaglen sefydlu yn cael ei goruchwylio gan y rheolwr cofrestredig ac roedd yn cynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol perthnasol, ac roedd gofyn i'r staff lofnodi'r cofnodion i gadarnhau eu bod yn eu deall. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y staff wedi'u paratoi a'u cefnogi'n briodol yn eu rolau o'r cychwyn cyntaf.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi drwy adolygiadau blynyddol o berfformiad a chyfathrebu rheolaidd â'r rheolwyr. Roedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob pedwar mis, ac roedd cofnodion ar gael i ddangos ymgysylltiad parhaus a thrafodaethau ynghylch materion gwasanaeth. Roedd hyfforddiant ar-lein ar gael i'r

staff hefyd, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu ymhellach lle bo hynny'n briodol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol ac yn sicrhau bod y staff yn cynnal y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eu rolau. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol gofynnol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Insert name

Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: **Dyddiad:**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany (24 Bridge Street), Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Yn ystod yr arolygiad, nodwyd y byddai prosesau hunan-ddatgan blynyddol ynghylch addasrwydd parhaus y staff a statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ymhellach.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hunan-ddatganiad blynyddol i gadarnhau nad oes unrhyw rybuddion gan yr heddlu, euogfarnau neu amgylchiadau eraill a allai effeithio ar statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 21	Mae'n ofynnol bellach i bob aelod o'r staff gwblhau hunan-ddatganiad blynyddol i gadarnhau nad oes unrhyw rybuddion gan yr heddlu, euogfarnau neu amgylchiadau eraill a allai effeithio ar statws eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rheolwr wedi llunio'r hunan-ddatganiad a bydd yn cadw'r copïau wedi'u llofnodi.	Cyfarwyddwr Clinigol	Wedi'i gwblhau erbyn 10 Hydref 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): John Sutton

Swydd: Rheolwr **Dyddiad: 30/09/2026**